## Ysgol Gynradd ST Joseph`s RC
## DISGRIFIAD SWYDD Goruchwyliwr Canol-dydd

**Cyfrifol i**: Pennaeth yr Ysgol a'r Uwch Oruchwyliwr

**Diben y Swydd:** Sicrhau diogelwch, llesiant a gofal y disgyblion yn yr ysgol a hyrwyddo eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol yn ystod y cyfnod amser cinio.

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau**

1. Goruchwylio disgyblion, yn ystod y cyfnod amser cinio, yn y neuadd fwyta, meysydd chwarae a safle'r ysgol, gan sicrhau diogelwch, llesiant a lles corfforol a meddyliol disgyblion a chynnal trefn a disgyblaeth dda.
2. Adrodd i'r Uwch Oruchwyliwr ar ddechrau'r cyfnod cinio a derbyn unrhyw gyfarwyddiadau yng nghyswllt dyletswyddau.
3. Monitro ymddygiad disgyblion, gan hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a hysbysu'r Uwch Oruchwyliwr fel sy'n briodol am unrhyw ddigwyddiadau.
4. Sicrhau diogelwch a llesiant disgyblion, gan roi cefnogaeth emosiynol lle bo angen.
5. Trefnu a goruchwylio gweithgareddau corfforol a chwarae priodol dan gyfarwyddyd yr Uwch Oruchwyliwr.
6. Sicrhau y caiff pob disgybl sy'n dioddef unrhyw anaf neu ddamwain eu trin yn briodol yn unol â gweithdrefnau a gytunwyd gan yr ysgol.

**Neuadd Fwyta**

7. Sicrhau fod disgyblion wedi ymweld â'r toiled a golchi eu dwylo cyn mynd i mewn i'r ystafell fwyta.
8. Trefnu ciw amser cinio a sicrhau bod disgyblion yn mynd i mewn i'r neuadd fwyta ac o'r neuadd fwyta i'r maes chwarae yn dawel a threfnus.
    - hyrwyddo a sicrhau ymddygiad da ac awyrgylch tawel
    - delio gyda'r disgyblion yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol
    - trin materion yn bwyllog a chwrtais a bod yn fodel rôl i'r plant wrth wneud hynny
    - hysbysu'r Uwch Oruchwyliwr fel sy'n briodol am unrhyw ddigwyddiadau
9. Annog pob disgybl i fwyta ond yn arbennig felly y rhai gydag anghenion arbennig neu anableddau a chynorthwyo'r plant i dorri bwyd, agor tybiau, tywallt dŵr ac yn y blaen lle bo hynny'n briodol i e.e. oedran y plentyn, anghenion y plentyn, fel bo angen.
10. Annog sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad da wrth y bwrdd, gan sicrhau diogelwch gyda chyllyll a ffyrc.
11. Glanhau bwyd a gaiff ei dywallt a threfnu clirio cyllyll a ffyrc a llestri oddi ar y byrddau.

**Maes Chwarae**

12. Lle'n briodol, mynd i nôl disgyblion o'r ystafell dosbarth gan sicrhau eu bod wedi gwisgo'n addas ar gyfer amodau'r tywydd.
13. Goruchwylio a rheoli disgyblion wrth iddynt fynd i mewn ac allan yn ystod yr egwyl ginio i safle'r ysgol a sicrhau ymddygiad trefnus yn unol â disgwyliadau uchel yr ysgol.
14. Gwirio unrhyw ddieithriaid a all fynd i mewn i safle'r ysgol a hysbysu'r Uwch Oruchwyliwr am unrhyw bryderon.
15. Sicrhau fod gan ddisgyblion sy'n gadael safle'r ysgol ganiatâd i wneud hynny.

**Safle'r Ysgol**

16. Goruchwylio disgyblion a hyrwyddo ymddygiad da ar safle'r ysgol yn y neuadd, ystafelloedd dosbarth, ar y grisiau a thrwy'r coridorau, yn ystod amserau cinio a hefyd pan fo plant tu mewn oherwydd tywydd anffafriol.
17. Sicrhau, pan ddefnyddir ystafelloedd dosbarth eu defnyddio yn ystod yr egwyl canol dydd oherwydd tywydd anffafriol, fod plant yn dawel ac y caiff yr ystafell ddosbarth ei gadael yn daclus, yn barod am ysgol y prynhawn.
18. Gwirio ardaloedd toiled yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn lân ac yn cael eu defnyddio mewn modd priodol. Hysbysu'r Uwch Oruchwyliwr am unrhyw broblemau.
19. Cymryd rhan mewn hyfforddiant priodol i swydd Goruchwyliwr Canol Dydd.
20. Gwneud unrhyw ddyletswyddau arall sy'n gyson â diben y swydd.